



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG48234

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn)

Tachwedd 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn).

Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: PolisiLlywLeol.Gohebiaeth@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: [Ymgynghoriad ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol \(adroddiad Richard Penn\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Cyflwyniad.....	4
Crynodeb o'r ymatebion	5

Cyflwyniad

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) y Fframwaith Safonau Moesegol (y Fframwaith) ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn ymestyn i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cyd-bwyllgorau corfforaethol, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub, a chynghorau cymuned a thref. Pan ddefnyddir y term cyngor/cynghorau yn y ddogfen hon, mae hyn yn ymestyn i holl aelodau'r cyrff a enwir uchod hefyd.

Gan nad yw'r Fframwaith wedi newid rhyw lawer yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf, cafodd adolygiad annibynnol (yr adolygiad) ei gomisiynu ym mis Mawrth 2021 a'i gynnal gan Richard Penn. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod y fframwaith presennol yn 'addas i'r diben' ac yn gweithio'n dda yn ymarferol. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai rhai newidiadau arwain at roi rhagor o bwyslais yn y Fframwaith ar atal cwynion, gwella'r ffordd o ddelio â chwynion, a sicrhau bod safonau moesegol sydd eisoes yn uchel yn cael eu codi ymhellach.

Cynhaliwyd gwaith trafod helaeth â rhanddeiliaid ar ôl cyhoeddi'r adolygiad, gan gynnwys swyddogion monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i swyddfa, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Un Llais Cymru. Gwrandawyd yn ofalus ar y drafodaeth ynghylch argymhellion yr adolygiad yng Nghynhadledd Safonau Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2022, a chyflwynodd pwyllgorau safonau eu safbwyntiau yn ysgrifenedig.

Roedd y papur ymgynghori yn adeiladu ar argymhellion yr adolygiad ac yn ystyried y safbwyntiau a'r sylwadau a godwyd yn ystod y gwaith trafod.

Gwybodaeth am y broses ymgynghori

Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o ymgynghoriad tri mis ffurfiol rhwng 24 Mawrth a 23 Mehefin 2023. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar ymatebion Llywodraeth Cymru i'r adolygiad a'i hystyriaeth o'r argymhellion, ynghyd â nifer o faterion eraill a godwyd yn ystod trafodaethau â rhanddeiliaid.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyflwyniad i'r Fframwaith, cylch gorchwyl yr adolygiad a dolenni i'r adolygiad.

Mae manylion yr ymgynghoriad ar gael [yma](#).

Gwybodaeth am yr ymatebion

Cafodd 31 o ymatebion eu cyflwyno ar-lein neu dros e-bost yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd un o'r ymatebwyr e-bost heb gyflwyno unrhyw atebion, ond roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud hynny. Cafodd tri ymateb arall eu cyflwyno ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Er nad yw'r ymatebion hyn wedi cael eu cynnwys yn

y crynodeb hwn o'r ymatebion, nodwyd bod y pwyntiau a godwyd yn cyd-fynd yn gyffredinol â phwyntiau ymatebwyr eraill.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn fodlon i'w manylion gael eu datgelu. Roedd hi'n well gan bedwar ymatebydd aros yn ddienw ac nid atebodd ddau y cwestiwn. Felly, nid ydym wedi rhyddhau manylion yr ymatebwyr.

Gellir grwpio'r 31 ymatebwr i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

- 12 prif gyngor a phwyllgorau prif gyngor
- 8 cyngor tref a chymuned
- 6 sefydliad, gan gynnwys cymdeithasau, paneli
- 2 awdurdod llywodraeth leol nad ydynt yn brif gyngor (awdurdod tân ac achub/awdurdod parc cenedlaethol)
- 2 aelod o'r cyhoedd
- 1 cyflwyniad ar-lein dienw, ni ellir ei grwpio

Cyflwynwyd 16 ymateb ar-lein ac 17 dros e-bost. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ar ffurf copi caled.

Crynodeb o'r ymatebion

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid nod yr adroddiad yw cofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, yn hytrach mae'n tynnu sylw at y negeseuon allweddol.

Gofynnwyd 22 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori ac mae crynodeb o'r ymatebion isod.

Ni chafodd pob cwestiwn ei ateb gan bob ymatebydd a rhoddodd rhai ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Lle darparwyd ymateb cyffredinol, rydym wedi cynnwys yr ymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol neu wedi darparu crynodeb o'r pwyntiau a godwyd o dan gwestiwn 22.

Mae sylwadau ymatebwyr wedi cael eu cynnwys yn y crynodeb lle nad yw ymatebydd wedi cytuno nac anghytuno'n benodol â chwestiwn.

Cwestiwn 1. *Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol i gyd-fynd â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylem ddiwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 29 y cwestiwn hwn. Nid oedd dau wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 100% o'r 29 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn. Dywedodd llawer fod y cynnig yn rhesymegol ac roeddent o blaid sicrhau cysondeb ledled Cymru. Cadarnhaodd un prif gyngor ei fod eisoes wedi cysoni yn hyn o beth ac

roedd yn credu y byddai'n anfon neges gadarn bod disgwyl i gynghorwyr hybu a chynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad.

Nid oedd unrhyw sylwadau negyddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 2. *A ddylai Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 26 y cwestiwn hwn. Nid oedd pump wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 85% o'r 26 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai'r Panel allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig. Er bod rhai wedi crybwyll yr angen am dryloywder mewn achosion, cododd rhai faterion mewn cysylltiad â gwrandawiadau a allai, er enghraifft, ymwneud â phobl ifanc dan oed. Mewn amgylchiadau o'r fath, roedd adrodd cyfyngedig yn cael ei ystyried yn briodol. Nododd un ymatebydd fod gan sefydliadau eraill weithdrefnau sydd wedi hen ennill eu plwyf, ac y gellid eu mabwysiadu.

Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai gorchmynion adrodd cyfyngedig gael gwared ar y rhwystrau i gwyno drwy roi amgylchedd diogel i achwynwyr, tystion, swyddogion ac aelodau o'r Panel. Awgrymwyd y gallai'r cyfyngiadau fod ar waith yn ystod gwrandawriad a'u codi ar ôl y gwrandawriad. Teimlwyd y gallai hyn helpu i osgoi "treial gerbron y cyfryngau".

Nid oedd 15% o'r 26 a atebodd yn cytuno y dylai'r Panel allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig. Awgrymodd rhai ymatebwyr na fyddai'r dull hwn yn cefnogi bod yn agored, tryloywder nac egwyddorion Nolan. Hefyd, roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai'r dull hwn osod cynsail, gan nad oes cyfyngiadau tebyg ar waith mewn meysydd eraill. Awgrymodd un ymatebydd fod y diffyg tystiolaeth ar gyfer gorchmynion o'r fath yn yr ymgynghoriad yn golygu nad oedd cyfiawnhad dros y cyfyngiadau.

Cwestiwn 3. *A ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol i alluogi'r Panel i sicrhau bod tystion yn aros yn ddiennw?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 23 y cwestiwn hwn. Nid oedd wyth wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 96% o'r 23 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai'r Panel gael darpariaeth gyfreithiol benodol i sicrhau bod tystion yn aros yn ddiennw. Roedd yr ymatebwyr yn gyson yn eu sylwadau y byddai diogelu tystion yn eu gwneud yn fwy parod i gymryd rhan. Cododd yr ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y rhai sy'n rhan o ymchwiliad yn gwybod pwy yw'r tystion er mwyn gallu amddiffyn eu hunain yn llawn. Roedd consensws cryf y dylai tryloywder barhau i fod yn rhan o'r achosion.

Roedd un ymatebydd yn anghytuno y dylai'r Panel gael darpariaeth gyfreithiol benodol i sicrhau bod tystion yn aros yn ddiennw, ar y sail y gallai ymatebydd cwynion diennw fod o dan anfantais sylweddol. Fodd bynnag, roedd o blaid cadw tystion yn

ddienw ar sail gymesur a detholus i ddiogelu eu lles a'u diogelwch os oes risg uchel i'r tyst hwnnw, er enghraifft yn achos pobl ifanc dan oed.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n gyson na ddylai cwynion fod yn ddiennw er mwyn cadw achosion yn deg ac yn dryloyw, ond y dylid diogelu tystion lle bo angen.

Cwestiwn 4. *Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fydddech chi'n eu hawgrymu?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 22 y cwestiwn hwn. Nid oedd naw wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 86% o'r 22 a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi egwyddor y newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad.

Roedd y sylwadau cadarnhaol yn cynnwys un a oedd yn dweud y dylai rheoliadau roi pŵer i Lywydd y Panel ymestyn yr amser sydd gan gynghorydd i wneud cais am ganiatâd i apelio os yw hynny er budd cyfiawnder. Teimlwyd hefyd y byddai'n briodol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru allu gwneud sylwadau ar geisiadau am ganiatâd i apelio ac y dylai'r broses ganiatáu amser ar gyfer gwneud sylwadau. Yn ogystal, awgrymwyd y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer gwrandawiadau preifat.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd yr ymatebion cadarnhaol yn cynnwys amodau ar ffurf sylwadau ar yr angen am roi digon o amser i apelwyr ddarparu dogfennaeth briodol, yn enwedig wrth weithio mewn proses a allai fod yn anghyfarwydd iddynt. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai saith diwrnod yn annigonol a bod angen eglurder ynghylch diffiniad diwrnodau, hy a yw hynny'n golygu diwrnodau gwaith neu bob diwrnod o'r wythnos. Teimlwyd y dylai'r Panel weithio yn ôl amserlen fel y partïon eraill yn y broses. Byddai hyn yn helpu i reoli disgwyliadau ac osgoi oedi hir nad yw er budd y cyhoedd.

Roedd y sylwadau gan yr 14% o ymatebwyr nad oedd yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio ar sicrhau nad yw'r broses gyfan yn para'n hirach na chyfnod penodol. Awgrymodd un ymatebydd y byddai 56 diwrnod yn amserlen resymol i'r Panel ddod i benderfyniad.

Cwestiwn 5. *A ddylid cael pŵer penodol i'r Panel alw tystion i dribiwnlysoedd apêl?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 25 y cwestiwn hwn. Nid oedd chwech wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 88% o'r 25 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cael pŵer penodol i'r Panel alw tystion i dribiwnlysoedd apêl. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai iawndal fod ar gael, fel treuliau teithio ac adferiad cyflog. Fodd bynnag, teimlwyd y dylid gwneud goblygiadau absenoldeb yn glir, a chyhoeddi canllawiau. Roedd yr ymatebwyr am gael gwybod am unrhyw sanctsiynau posibl y gellid eu hystyried am dremygu galwad.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'n groes i fudd cyfiawnder pe na bai tyst yn bresennol mewn gwrandawriad, ac roedd rhai'n teimlo bod dyletswydd ar y tyst i fod yn bresennol ar gyfer tryloywder cyfreithiol.

Roedd 12% o'r 25 a atebodd y cwestiwn hwn yn anghytuno. Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar y farn y byddai galw tystion yn ddull or-wrthwynebol ac y dylid cydnabod bod yr achos mewn tribiwnlys apêl, nid llys troseddol.

Cwestiwn 6. *A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 22 y cwestiwn hwn. Nid oedd naw wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr, 68%, yn teimlo na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y weithdrefn bresennol yn gweithio'n dda ac y dylai pwyllgorau safonau, fel y corff lleol sy'n delio â safonau, barhau i fod â'r hawl i fabwysiadu safbwynt gwahanol, ystyriol, i argymhelliad tribiwnlys apêl.

Sylw allweddol a godwyd gan fwyaf yr ymatebwyr oedd ei bod hi'n arfer sefydledig y dylai tribiwnlysoedd apêl gyfeirio achosion yn ôl at y prif benderfynwr ar gyfer ailystyried. Dywedodd un ymatebydd, "er y byddai'n rhaid i Bwyllgor Safonau fod yn "ddewr" i anghytuno â'r Panel, byddai newid sy'n dileu'r hawl iddynt wneud hynny yn lleihau eu rhyddid i weithredu".

Cadarnhaodd 32% o'r 22 o ymatebwyr y byddent yn dymuno gweld newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau. Roedd eu sylwadau'n canolbwyntio ar bwyllgorau safonau'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros hybu safonau ymddygiad, ac y dylent felly barhau i fod yn gymrodeddwr ac yn benderfynwr ar gyfer materion sy'n cael eu cyfeirio atynt.

Awgrymwyd y dylid darparu eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle gall y Panel gyfeirio mater yn ôl i bwyllgor safonau, a theimlwyd y dylid cyfyngu hyn i achosion lle y gall pwyllgor safonau fod wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol yn ei benderfyniad, neu wedi gwneud penderfyniad sy'n afresymol neu'n annheg yn weithdrefnol.

Cwestiwn 7. *Ydych chi'n cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawriadau tribiwnlys yn breifat?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 24 y cwestiwn hwn. Nid oedd saith wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 83% o'r 24 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i'w gwneud hi'n bosibl cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawriadau tribiwnlys yn breifat. Awgrymodd un ymatebydd fod pŵer i wrando ar dystiolaeth yn breifat eisoes yn bodoli ond ei bod hi'n llai clir, oherwydd geiriad y rheoliadau, a oes rhaid i'r gwrandawriad cyfan fod yn breifat, ac awgrymodd mai'r pwynt hwn sydd angen rhagor o eglurder.

Roedd nifer o ymatebwyr wedi cysylltu eu hymateb i'r cwestiwn hwn â'u hymateb i gwestiwn 3, gan nodi y gallai cadw tystion yn ddiennw wneud tystion yn fwy tebygol o gymryd rhan a'i gwneud hi'n bosibl diogelu tystion agored i niwed yn well.

Dyweddodd ymatebwyr eraill y byddai'n deg ac yn rhesymol cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawriad tribiwnlys yn breifat mewn amgylchiadau wedi'u rhagnodi, er enghraifft pan fydd gwybodaeth bersonol neu fasnachol sensitif yn cael ei datgelu. Byddai hynny'n cyd-fynd â'r pŵer i bwyllgorau safonau allu eithrio'r wasg a'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd cyfyngedig.

O'r 17% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn ac a oedd yn anghytuno, roedd un wedi amodi ei ymateb ar y sail ei fod yn teimlo y dylid cael darpariaeth benodol i'w gwneud hi'n bosibl cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawriadau tribiwnlys yn breifat dim ond pan fydd yn groes i gyfraith gyffredin.

Dyweddodd un arall y dylid ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ynghylch sut mae'r cynnig yn rhyngweithio ag uniad system Tribiwnlysoedd Cymru er mwyn gallu darparu ymateb mwy gwybodus.

Cwestiwn 8. *Ydych chi'n cytuno y dylid cadw'r gofyniad i roi dim llai na saith diwrnod o rybudd o ohirio gwrandawriad?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 22 y cwestiwn hwn. Nid oedd naw wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 84% o'r 22 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid cadw'r gofyniad i roi dim llai na saith diwrnod o rybudd, ac roedd gweddill yr ymatebwyr yn anghytuno.

Roedd y rhai a oedd yn cytuno wedi dweud y dylid ei gadw er eglurder i bob parti ac i'w gwneud hi'n bosibl cymryd camau o fewn amserlenni rhesymol. Ymysg y pwyntiau eraill oedd y dylid darparu cymaint o rybudd â phosibl cyn gohirio, ac mai saith diwrnod yw'r lleiafswm. Awgrymodd un ymatebydd a oedd yn cytuno y dylid rhoi dim llai na saith diwrnod o rybudd y byddai dim llai nag 20 diwrnod yn fwy priodol ac ymarferol.

Roedd yr 16% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nad oeddent yn cytuno y dylid cadw'r gofyniad i ddarparu dim llai na saith diwrnod o rybudd yn teimlo y dylid ystyried yr angen i orfod gohirio gan roi llai o rybudd am resymau rhesymol fel salwch un o brif bartion gwrandawriad. Teimlwyd nad oedd penderfyniadau i ohirio o ganlyniad i amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld, a allai ddigwydd yn fyr rybudd iawn, yn cael eu gwneud ar chwarae bach.

Roedd ystod eang o awgrymiadau yn y naw sylw a gafwyd gan y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno ynghylch beth, yn eu barn nhw, sy'n amserlen briodol ar gyfer rhoi rhybudd o ohirio. Dywedodd rhai ymatebwyr fod dim llai na saith diwrnod o rybudd yn ymddangos yn rhesymol. Roedd yr ymatebion eraill yn amrywio o dri diwrnod o rybudd i 20 diwrnod o leiaf.

Cwestiwn 9. *A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel, ac os felly, beth ddylai'r sancsiynau fod?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 23 y cwestiwn hwn. Nid oedd wyth wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 83% o'r 23 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel.

Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai fod rhagor o sancsiynau ar gael yn lleol, hy mewn prif gynghorau, ac y dylai'r sancsiynau hynny fod yn fwy cyson ar gyfer torri'r cod ymddygiad a pholisïau eraill. Codwyd materion o ran anghysondeb rhwng cynghorau, a bod angen i bwyllgorau safonau fod yn gryf ac yn fwy cefnogol i ddiogelu cynghorwyr a swyddogion rhag ymddygiad gwael, bwlio, bygwth ac aflonyddu.

Darparwyd awgrymiadau ar gyfer ystod ehangach o sancsiynau, fel y rhai a nodir isod.

- Hyfforddiant / hyfforddiant rhagnodedig o fewn amserlen benodol
- Camau adfer
- Cyfnod atal, gyda chanllawiau, a bod y panel yn pennu hyd y cyfnod atal i adlewyrchu amgylchiadau/difrifoldeb yr achos
- Ataliad amodol, er enghraifft atal oni bai fod y sawl dan sylw yn ymddiheuro o fewn 30 diwrnod / yn cyflawni hyfforddiant / yn cymryd rhan mewn proses gymodi
- Mynediad cyfyngedig at adnoddau
- Peidio â gallu sefyll i gael ei ailethol yn y dyfodol
- Ataliad rhannol, er enghraifft os bydd aelod yn methu datgelu buddiant personol mewn mater cynllunio, caniatáu iddo barhau â dyletswyddau lleol ond ei atal o'r Pwyllgor Cynllunio am dri mis, er enghraifft. Neu ar gyfer rolau cyflogedig, lle bydd dyletswyddau lleol aelod yn parhau ond ei fod yn cael ei atal rhag cyflawni rôl arwain a rhag cael yr elfen honno o'i lwfans.

Roedd 18% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn anghytuno. Roeddent yn credu bod y sancsiynau presennol yn ddigonol ac yn briodol ar y cyfan. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ychwanegu ataliad o 12 mis neu tan ddiwedd y cyfnod swydd.

Dywedodd ymatebydd arall, yn gyffredinol, fod y sancsiynau sydd ar gael i'r Panel yn briodol, yn glir ac yn adlewyrchu'r achosion mwy difrifol y mae'n delio â nhw. Roedd yn teimlo ei bod hi'n briodol bod gan y pwyllgor safonau ragor o hyblygrwydd o ran sancsiynau.

Cwestiwn 10a. *Ydych chi o blaid y diwygiadau arfaethedig i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, esboniwch pam.*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 23 y cwestiwn hwn. Nid oedd wyth wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 96% o'r 23 a atebodd y cwestiwn hwn o blaid y diwygiadau arfaethedig i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim. Roedd amrywiaeth eang o sylwadau ac ystyriaethau gan ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod yr anawsterau ar hyn o bryd wrth wneud cais am orchymyn atal dros dro yn creu risg ddifrifol mewn nifer isel o achosion, er enghraifft pan fydd pryderon diogelwch.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon o ran enw da os caiff cynrychiolydd etholedig ei atal dros dro a'i glirio wedi hynny o bosibl. Awgrymwyd y byddai angen tystiolaeth gadarn i atal dros dro ac y gallai fod yn amhriodol parhau i roi tâl i gynghorydd sy'n wynebu cyhuddiadau. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylai atal dros dro fod yn weithred niwtral ac nid yn ddyfarniad o gamymddwyn/euogrwydd. Cafodd pwerau adrodd cyfyngedig eu crybwyll fel ffordd bosibl o liniaru'r risg hon.

Awgrymodd un ymatebydd y gellir rhoi proses ar waith i roi pŵer i'r Panel roi ataliad interim yn debyg i'r weithred 'niwtral' o atal dros dro sy'n berthnasol mewn sefyllfaoedd cyflogaeth. Byddai hyn yn cynnal hyder y cyhoedd a'u diogelu os, er enghraifft, codwyd pryderon diogelu mewn cysylltiad ag ymddygiad aelod a bod tystiolaeth prima facie y gallai gamddefnyddio eu rôl fel aelod os na chaiff ei atal ar sail interim.

Nodwyd pryderon eraill ynghylch effaith ddemocrataidd bosibl ataliad dros dro, a allai olygu bod un ward aelodaeth heb gynrychiolaeth a'r posibilrwydd o ansefydlogrwydd gwleidyddol o ran cydbwysedd y cyngor. Teimlwyd y byddai'r gallu i roi ataliad rhannol yn lliniaru'r risg hon o bosibl.

Awgrymwyd y byddai'n werth sefydlu paramedrau/esiamplau cyffredinol, drwy ddeddfwriaeth neu ganllawiau, ar gyfer pa bryd y byddai'n briodol ystyried ataliad interim ac y byddai proses tribiwnlys achos interim symlach yn cael ei chroesawu.

Dywedodd un ymatebydd ei fod o blaid ac yn erbyn y diwygiad arfaethedig. Teimlai'r ymatebydd bod angen i'r broses fod yn symlach ac heb ddehongliadau sy'n rhoi'r achwynydd neu'r ymatebydd dan anfantais. Dywedodd yr ymatebydd fod diffyg gwybodaeth wedi'i darparu yn gyffredinol i allu ymateb yn iawn i'r cwestiwn hwn, ac nad oedd ganddo'r ffeithiau perthnasol.

Cwestiwn 10b. *Os ydych chi o blaid y newidiadau i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim, ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd, hy drwy fyrhau a symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001? Os ydych chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r broses hon o fewn y rheoliadau?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 19 y cwestiwn hwn. Nid oedd 12 wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 89% o'r 19 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd drwy fyrhau a symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai canlyniad cyflymach i bob parti, a phroses symlach sy'n defnyddio iaith glir, yn fuddiol. Teimlwyd hefyd y byddai system debyg i Wasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol yn briodol.

O'r 11% a oedd yn anghytuno y dylid sefydlu trefniant interim, awgrymwyd y byddai canolbwyntio ymdrechion ar y strategaeth hirdymor ar gyfer newid hirdymor yn ffordd well o ddefnyddio adnoddau cyfyngedig na datblygu trefniadau interim.

Dywedodd un ymatebydd, na fynegodd unrhyw farn ar gyfer y cwestiwn hwn, nad oedd digon o wybodaeth ac nad oedd dyheadau'r Panel yn glir.

Cwestiwn 11. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng nghyswllt gweithrediad y Panel?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 24 y cwestiwn hwn. Nid oedd saith wedi mynegi unrhyw farn.

Dywedodd 83% o'r 24 a atebodd y cwestiwn hwn nad oedd ganddynt sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng nghyswllt gweithrediad y Panel.

Roedd 17% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn wedi mynegi barn ar yr argymhellion. Roedd rhai'n teimlo y dylid gwneud penderfyniadau'n gyflymach. Roedd eraill yn awgrymu y dylid ystyried a oes rhaid cyhoeddi hysbysiadau'r Panel mewn papurau newydd lleol, ac ar hyn o bryd mae'r rheoliadau'n mynnu bod copi caled o'r cyfeiriad yn cael ei anfon at y cynghorydd gan y Panel, ac y dylai'r Panel allu anfon cyfeiriad drwy ddulliau eraill.

Roedd ymatebydd arall yn teimlo y dylid ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a chael safbwynt ysgrifenedig er mwyn gallu darparu ymateb mwy gwybodus.

Cwestiwn 12. *Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 23 y cwestiwn hwn. Nid oedd wyth wedi mynegi unrhyw farn.

Darparodd y 23 a atebodd y cwestiwn hwn amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch pwy fyddai'n gallu bwrw ymlaen â hyn a sut. Codwyd nifer o themâu.

Roedd yr ymatebwyr yn canolbwyntio ar ragor o hyrwyddo yn y cyfryngau, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol a gwefannau â fformatau hawdd eu deall, a hynny i gynyddu dealltwriaeth o'r canlynol: 1) sut rhoddir sylw i achosion o dorri'r cod drwy broses agored ac annibynnol sy'n cynnwys sancsiynau effeithiol; a 2) bod cynghorwyr sy'n torri'r cod yn cael eu dal i gyfrif. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod yn rhaid ystyried allgáu digidol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac economaidd ddifreintiedig.

Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid cynnwys cytundeb ysgrifenedig i hybu a chynnal y Fframwaith Safonau Moesegol ar y papurau etholiad a'r ffurflen datganiad derbyn, yn ogystal â hyfforddiant gorfodol i aelodau etholedig, sy'n cynnwys gweithdai a diwrnodau agored.

Teimlwyd hefyd y dylid fetio a hyfforddi aelodau annibynnol i safon debyg a ddisgwylir gan aelodau pleidiau gwleidyddol i sicrhau y cydymffurfir â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'u bod yn meithrin dealltwriaeth o'r nodweddion gwarchoddedig. Dylai modiwlau e-ddysgu fod ar gael i aelodau etholedig.

Dywedodd un ymatebydd, er bod ymateb cadarnhaol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r fframwaith, fod pryder ynghylch rheoli disgwyliadau'r cyhoedd. Nododd yr ymatebydd drothwy budd y cyhoedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac nad yw datrys yn lleol yn berthnasol i gwynion gan y cyhoedd bob amser, sy'n golygu nad yw disgwyliadau'n cael eu bodloni bob amser.

Cynigiodd yr ymatebwyr ystod eang o awgrymiadau ynglŷn â phwy ddylai ymgymryd â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a sut y dylid codi ymwybyddiaeth. Roedd yr awgrymiadau yn amrywio o ddull gweithredu canolog gan un corff neu sefydliad i arwain y gwaith o gynhyrchu deunydd hyrwyddo ar gyfer dull gweithredu effeithlon a negeseuon cyson, i bob awdurdod lleol unigol yn darparu gwybodaeth am y fframwaith.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai pwyllgorau safonau gydweithio â swyddogion cydraddoldeb y prif gynghorau i edrych ar ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymhellach. Teimlai fod gwelededd y pwyllgor safonau a hyrwyddo rolau a chyfrifoldeb aelodau etholedig yn hollbwysig yn hyn o beth. Roedd ymatebydd arall yn credu ei bod hi'n bwysig bod Fforwm Cenedlaethol o bwyllgorau safonau yn trafod ac yn cytuno ar ddull gweithredu cyson.

Nodwyd hefyd y dylai grwpiau cynrychioladol penodol fod yn gyfrifol am y gwaith o godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ymysg pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid rhoi cyfarwyddyd i bob un o'r 732 o Gynghorau Cymuned a Thref, a chyrrff cyhoeddus eraill, yn dweud y dylent gael adran ar eu gwefan sy'n esbonio'r Fframwaith Moesegol a bod Llywodraeth Cymru'n darparu testun safonol er mwyn bod yn gyson.

Soniodd ymatebydd arall am y posibilrwydd o weithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o, er enghraifft, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Un Llais Cymru a Chyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a allai baratoi set eang o ddeunyddiau i Gymru, a phennu'r fformat gorau ar gyfer eu cyhoeddi/cyfathrebu.

Cwestiwn 13. *Hysbysebu am aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 25 y cwestiwn hwn. Nid oedd chwech wedi mynegi unrhyw farn.

Er bod 56% o'r 25 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd, roedd 44% yn anghytuno. Dywedodd un prif gyngor fod yr holl aelodau annibynnol ar eu pwyllgorau safonau wedi cael gwybod am y swyddi gwag drwy hysbysebion mewn papur newydd.

Cytunodd nifer o ymatebwyr y dylai hyblygrwydd lleol ar gyfer proses recriwtio agored gynnwys papurau newydd. Awgrymwyd mai awdurdodau unigol fyddai yn y sefyllfa orau i benderfynu, ac y byddent yn gallu ystyried hygyrchedd y rhyngwyd yn eu hardal.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn teimlo y dylid dileu'r gofyniad yn dweud mai cost yw'r prif gyfyngiad. Dywedodd rhai ymatebwyr fod nifer uchel o'u haelodau annibynnol wedi cael gwybod am y cyfleoedd drwy ffynonellau ar wahân i bapurau newydd, sy'n cyferbynnu â phrofiad ymatebwyr eraill.

Roedd yr ymatebwyr yn nodi'n gyson mai codi ymwybyddiaeth yn eang, gan gynnwys mewn amrywiaeth o gyhoeddiadau, ar gyfryngau cymdeithasol a drwy roi gwybodaeth i sefydliadau rhanddeiliaid, yw'r ffordd orau o gyrraedd y gronfa ehangaf bosibl o ymgeiswyr.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar recriwtio cynhwysol ac ar y manau priodol i gyhoeddi hysbysebion.

Cwestiwn 14a. *Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau Safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 26 y cwestiwn hwn. Nid oedd pump wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 65% o'r 26 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad. Ymysg y sylwadau oedd y byddai dileu'r gwaharddiad hwn yn helpu pwyllgorau safonau i ddenu ymgeiswyr o ansawdd uchel o bosibl i'w pwyllgorau.

Fodd bynnag, o blith y rhai a oedd yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad, nododd nifer uchel y dylai'r gwaharddiad aros yn ei le i'r rhai sydd wedi cael swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol, ac y dylai fod yn waharddiad gydol oes. Awgrymodd un ymatebydd waharddiad am gyfnod penodol i'r rhai sydd wedi cael swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol.

Roedd 35% o'r 26 a atebodd y cwestiwn hwn yn anghytuno y dylid dileu'r gwaharddiad. Y sylw cyson gan yr ymatebwyr hyn oedd y dylai annibyniaeth aelodau roi sicrwydd eu bod yn gallu bod yn gwbl annibynnol a diduedd yn wleidyddol heb unrhyw amheuaeth. Ni all tegwch ac uniondeb y pwyllgor a'r broses gynnwys unrhyw awgrym o duedd.

Cwestiwn 14b. *Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 24 y cwestiwn hwn. Dywedodd 8 o'r 24 na ddylid dileu'r gwaharddiad neu nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. Nid oedd saith wedi mynegi unrhyw farn.

Dywedodd nifer isel o ymatebwyr fod safbwyntiau gwahanol ymysg aelodau o bwyllgorau ar gyfer y cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion yn amrywio o flwyddyn i 5-10 mlynedd, yn dibynnu a oedd y swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol ai peidio. Awgrymodd yr ymatebwyr y posibilrwydd o gyfnod ethol, neu broses bragmatig ond cadarn o ddatgan unrhyw fuddiannau yn y mater.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid treulio amser yn ennill profiad gydag awdurdod/cyflogwr arall er mwyn cyflwyno safbwyntiau newydd. Roedd eraill o'r farn na ddylai cyn-weithiwr fod yn aelod annibynnol ar gyfer ei gyn-gyngor, ond y gallai fod ar gyfer cyngor arall.

O ran swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn amrywio. Roedd tri ymatebydd yn teimlo na ddylai'r rhai sydd wedi cael swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol allu gwasanaethu fel aelodau annibynnol ar gyfer y cyngor lle roeddent dan gyflogaeth. Fodd bynnag, roedd rhai'n awgrymu y byddai cyfnodau o ddwy flynedd a 5-10 mlynedd yn briodol. Awgrymwyd dull gweithredu hyblyg ar sail lluosrifau hyd gwasanaeth, a allai gynnwys cyfnod lleiaf a mwyaf.

Cwestiwn 15. *Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo? Os ydych chi, beth fyddai'n gyfnod gras addas yn eich barn chi?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 25 y cwestiwn hwn. Nid oedd chwech wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 52% o'r 25 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes, a 48% yn anghytuno.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn credu nad yw'r gwaharddiad gydol oes yn briodol mwyach wedi darparu amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer cyfnod gras addas. Nodwyd unwaith eto fod amrywiaeth barn ar y cyfnod gras a'r gwaharddiad gydol oes ymysg rhai pwyllgorau.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer cyfnod gras addas yn amrywio o flwyddyn i bum mlynedd, gydag ystyriaethau ynghylch a ddylai'r cyfnod gras fod yn hirach i aelodau sydd wedi cael swyddi uwch/cabinet/gweithredol. Cafwyd un awgrym y dylai aelodau fod wedi gadael eu swydd ers tymor o leiaf cyn dychwelyd fel aelod o'r pwyllgor safonau.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno, dywedodd nifer o ymatebwyr fod y rôl cynghorydd, hyd yn oed rolau y tu allan i bleidiau gwleidyddol cenedlaethol, yn un wleidyddol. Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus bod yn rhaid cael canfyddiad bod aelodau annibynnol yn annibynnol ar wleidyddiaeth leol, a bod dileu'r gwaharddiad hwn yn dileu mesur diogelu allweddol ar gyfer llywodraethu sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod cyfansoddiad pwyllgorau a'r strwythur aelodaeth fel y maen nhw ar hyn o bryd yn sicrhau bod aelodau annibynnol yn cael eu hystyried yn gwbl annibynnol ar wleidyddiaeth leol.

Cwestiwn 16. *Pwyllgorau safonau galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 26 y cwestiwn hwn. Nid oedd pump wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 73% o'r 26 a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno y dylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno yn dweud bod cael tystion yn bresennol mewn gwrandawiadau i sicrhau democratiaeth a bod tystiolaeth ehangach yn cael ei chyflwyno o fudd i gyfiawnder. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai gallu rhyngweithio'n uniongyrchol â'r bobl dan sylw yn fwy defnyddiol nag adroddiadau wedi'u paratoi ymlaen llaw. Fodd bynnag, dywedwyd y dylid ystyried a ddylid galw neu wahodd tystion, a sut byddent yn cael eu diogelu pe baent yn cael eu galw.

O ran mecanwaith galw tystion, codwyd pryderon tebyg gan y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r cwestiwn. Y prif bryder oedd y byddai angen llwybr gorfodi ar y mecanwaith i alw tystion heb ei bwerau dirmyg ei hun – pŵer i geisio gwarant gan Lys Ynadon o bosibl. Teimlwyd bod angen ystyried ymhellach yr elfen gyfreithiol o bwy sy'n gallu galw tyst a'r llwybrau sydd ar gael os na chaiff galwad ei dilyn, yn ogystal â'r goblygiadau. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai galw tystion heb unrhyw ddull gorfodi yn dwyn anfri ar y pŵer.

Ymysg y pryderon eraill gan y rhai a oedd yn anghytuno oedd gorfodi galwad, ac yn benodol a fyddai galw tyst anffodlon o gymorth i achos. Roeddent yn teimlo y byddai'n well clywed gan dystion sy'n fodlon cyfrannu at yr achos a chynnig gwybodaeth o'u gwirfodd.

Teimlwyd mai dim ond barnwr neu gorff barnwrol dylai allu cyhoeddi galwad, yn enwedig o ystyried y gallu i anfon yr heddlu i'w gorfodi. Os teimlir bod angen i bwyllgorau safonau alw tyst, crybwyllwyd y gellid diwygio'r gyfraith i'w gwneud hi'n bosibl i'r pwyllgor wneud cais i farnwr neu gorff barnwrol addas, ee Llywydd y Panel.

Cwestiwn 17. *Ydych chi'n cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall pwyllgor safonau eu gosod?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 25 y cwestiwn hwn. Nid oedd chwech wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall pwyllgor safonau eu gosod.

Roedd y sylwadau'n cynnwys amrywio hyd yr ataliad i gyd-fynd â difrifoldeb yr honiad, gan atal am gyfnod hirach mewn achosion difrifol, camau adfer yn hytrach nag atal neu anghymhwysu, a'r pŵer i orchymyn hyfforddiant ac ymddiheuriad o fewn cyfnod penodol. Awgrym arall oedd gallu cyfyngu ar fynediad at adnoddau'r awdurdod lleol fel sancsiwn.

Cafodd y mater o atal ei ystyried gan nifer o ymatebwyr. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y gellid rhoi ataliad neu ddedfrydau amodol am beidio â chymryd rhan mewn hyfforddiant neu ymddiheuro, neu ataliad nes bod yr hyfforddiant wedi'i gyflawni neu'r ymddiheuriad wedi'i wneud. Cafodd ataliad rhannol ei awgrymu hefyd, ee ataliad rhag dyletswyddau penodol.

Awgrymwyd y dylai sancsiynau anelu at hybu arferion da lle bo hynny'n rhesymol, yn hytrach na chosbi, a theimlwyd y byddai sicrhau bod set fwy manwl o sancsiynau ar gael i'r pwyllgor safonau yn cefnogi hyn. Awgrymwyd y gellid nodi achosion o dorri'r cod ymddygiad ar broffil y cynghorydd, ynghyd â chofnodion presenoldeb a hyfforddiant.

Roedd un ymatebydd yn bryderus nad oes deddfwriaeth ar gamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd. Codwyd pryderon ynghylch yr anghysondeb yn null swyddogion monitro o helpu a chefnogi cynghorau cymuned, a bod angen i bwyllgorau safonau fod yn gryfach i helpu cynghorau lleol.

Roedd 20% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn anghytuno. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn teimlo bod y cwestiwn yn aneglur. Ni chafwyd safbwyntiau na sylwadau pellach gan yr ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno.

Cwestiwn 18. *Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r newidiadau uchod i'r Fframwaith a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Pa effeithiau y byddent yn eu cael yn eich barn chi?

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 22 y cwestiwn hwn. Nid oedd naw wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 82% o'r 22 a wnaeth sylwadau yn credu y byddai'r effeithiau'n niwtral neu na fyddai effaith ar y Gymraeg, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dywedodd eraill y byddai'r newidiadau yn cefnogi cynhwysiant ac yn cynyddu amrywiaeth. Fodd bynnag, roedd dau ymatebydd yn teimlo y byddai costau uwch o

ganlyniad i gyfieithu a dywedodd un arall y dylid ystyried mynediad at gyfleusterau cyfieithu wrth newid amserlenni.

Cwestiwn 19. *Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 13 y cwestiwn hwn. Nid oedd 18 wedi mynegi unrhyw farn.

Dywedodd 62% o'r 13 a atebodd y cwestiwn hwn nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Roedd y 38% arall wedi cyflwyno ymatebion tebyg i'r rhai a gyflwynwyd i gwestiwn 18. Roedd un ymatebydd yn teimlo y gellid lliniaru effeithiau negyddol costau drwy ddarparu dogfennau ar gais, yn dibynnu ar faint o Gymraeg sy'n cael ei siarad yn yr ardal.

Cwestiwn 20. *Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 16 y cwestiwn hwn. Nid oedd 15 wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd 25% o'r 16 a atebodd y cwestiwn hwn yn teimlo y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn cael effaith niwtral, neu nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Darparwyd sylwadau ychwanegol gan 75% o'r 16 a atebodd y cwestiwn.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai dogfennau nodi'n glir y gellir cynnal cyfathrebiadau a gwrandawiadau yn y naill iaith neu'r llall, ac y bydd hybu'r defnydd o'r Gymraeg a gwneud popeth ar gael yn Gymraeg yn cynyddu cydraddoldeb unrhyw broses. Cefnogwyd hyn gan safbwyntiau ymatebwyr eraill, sef y dylid sicrhau bod cyfle cyfartal i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg ac y dylai unrhyw newidiadau gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac ystyried polisïau Cymraeg awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr hawliau cyfredol ar gyfer y Gymraeg wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu hybu'n dda eisoes, a'i bod yn ymddangos na all y gyfundrefn wneud rhagor i hybu'r iaith ymhellach.

Gofynnodd un ymatebydd a fu ymgynghoriad uniongyrchol â Chomisiynydd y Gymraeg/yr Adran Gymraeg. Roedd ymatebydd arall yn teimlo y dylid sicrhau bod cyllideb ddigonol yn cael ei darparu ar gyfer cyfieithu.

Cwestiwn 21. *Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy?*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, atebodd 21 y cwestiwn hwn. Nid oedd 10 wedi mynegi unrhyw farn.

Roedd rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau mewn cysylltiad â meysydd y tu allan i'r ymgynghoriad hwn. Bydd swyddogion yn eu hystyried mewn gwaith yn y dyfodol neu mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y sector llywodraeth leol eisoes wedi ysgwyddo cyfrifoldeb a gweithio i fabwysiadu nifer o'r argymhellion o adroddiad Penn lle nad oedd angen newidiadau deddfwriaethol, gan gynnwys sefydlu Fforwm Cenedlaethol Pwyllgor Safonau (yng Nghymru), cynnal cynhadledd safonau cenedlaethol, a chysoni'r trothwy ar gyfer datgan rhoddion a lletygarwch.

Tynnodd 33% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn sylw at faterion mewn cysylltiad â chynghorwyr yn hunan-adrodd ymddygiad troseddol. Roeddent yn teimlo y dylai fod gofyniad i hunan-adrodd unrhyw euogfarn a roddwyd i'r cynghorydd ers datgan ei fod yn derbyn y swydd (ac eithrio unrhyw beth y gellir ei gosbi gyda hysbysiad cosb benodedig). Ystyriwyd bod apeliadau'n broblem, ond teimlwyd bod y cynghorydd yn dal wedi'i euogfarnu'n gyfreithiol nes bod apêl wedi llwyddo, ac y gellir gohirio ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus nes bod yr apêl wedi dod i ben.

Roedd 71% o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn teimlo y dylai hyfforddiant ar y Fframwaith Moesegol fod yn orfodol. Roedd nifer o'r materion a godwyd mewn cysylltiad â hyfforddiant yn debyg i'r rhai wedi'u crynhoi mewn ymatebion i gwestiynau blaenorol, fel bod yn rhaid cyflawni hyfforddiant o fewn amserlen benodol a chosbau am beidio â chymryd rhan mewn hyfforddiant.

Fodd bynnag dywedodd ymatebwyr eraill, pe bai cynghorydd wedi'i ethol yn benodol ar blatfform lle nad oedd rhaid cyflawni hyfforddiant, byddai'n anghywir cosbi am beidio â gwneud hynny.

Ar ben hynny, awgrymodd yr ymatebwyr y dylid cynyddu blaenoriaeth a statws hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, a'i gynnwys mewn cynlluniau hyfforddi cynghorwyr a threfnu hyfforddiant gloywi, os na ellir gorfodi hyfforddiant. Teimlwyd y dylid rhoi cryn bwyslais ar y gydberthynas rhwng glynu wrth y cod a'i ddisgwyliadau o ran ymddygiad da, ac enw da'r cyngor a hyder y cyhoedd. Awgrymwyd y dylid rhestru'r cynghorwyr sy'n cyflawni hyfforddiant yn Adroddiad Blynyddol cynghorau er mwyn i'r cofnod fod yn weladwy.

Ar ben hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid buddsoddi ymlaen llaw i gael swyddogion a chynghorwyr gwybodus, a dylai hyfforddiant ar y Fframwaith Moesegol fod yn orfodol i glercod cynghorau tref a chymuned. Dywedwyd y byddai deunyddiau hyfforddi digidol, cenedlaethol i gynghorau tref a chymuned eu gwyllo yn eu cyfarfodydd eu hunain/o bell yn ddefnyddiol.

Awgrymwyd y dylid gwerthuso costau ymddygiad gwael mewn cyngorau, er enghraifft ar drosiant staff. Roedd ymatebydd arall yn teimlo y byddai'n fuddiol dysgu o ymchwil ar sut mae cyrff eraill yn y sector cyhoeddus yn sicrhau cydymffurfedd â chodau.

Awgrymwyd cymhwyster sy'n dangos y sgiliau trosglwyddadwy a enillir drwy gydol cyfnod swydd, ac y dylai hyfforddiant a ddarperir gan gyrff i gynghorwyr fod yn gyson, yn glir, ac na ddylai danseilio rôl cynghorwyr na'r cod ymddygiad. Codwyd y pwynt nad oes proses i herio'r cyngor a roddir gan gorff, hyd yn oed os yw wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Meysydd eraill a godwyd gan yr ymatebwyr

Cafodd cyfryngau cymdeithasol eu codi gan nifer o ymatebwyr. Roedd rhai wedi awgrymu y dylid ffurfioli canllawiau CLILC neu y gallai'r Cod Ymddygiad fynnu bod cynghorwyr yn deg ac yn gywir wrth adrodd neu wneud sylw ar fusnes y cyngor. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo na ddylai'r cod gyfeirio'n benodol at gyfryngau cymdeithasol, ac y dylid canolbwyntio ar roi sylw i ymddygiad. Roedd bron pawb yn cytuno y dylid defnyddio hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol a'i bod yn bwysig cael cydweithrediad eang ar hyn.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen proses ddatrys glir ar gyfer cwynion sy'n effeithio ar gynghorydd sy'n gwasanaethu ar fwy nag un awdurdod perthnasol. Awgrymodd yr ymatebwyr ffordd o ychwanegu eglurder at y mater.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid cael gweithdrefn ar waith sy'n manylu ar sut caiff y ddyletswydd gofal ei chyflawni mewn cysylltiad â chynghorwyr a staff fel rhan o'r safonau ymddygiad disgwylidig.

Roedd sylwadau eraill ar y Cod Ymddygiad yn cynnwys:

- Mae angen bod yn fwy cyfarwyddol o ran yr hyn y mae am ei gyflawni.
- Mae angen adolygu'r broses gyfan o ymchwilio i achosion o dorri'r cod a phenderfynu arnynt, gyda'r nod o symleiddio a byrhau'r broses gyfan.
- Dylid defnyddio rhagor o'r protocol datrys yn lleol ar gyfer cwynion, a dylid diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn briodol i fynnu bod unrhyw gŵyn yn cael ei hystyried ar gyfer datrys yn lleol cyn y gellir ei hatgyfeirio at yr Ombwdsmon wedi hynny.

Roedd un ymatebydd yn teimlo bod angen edrych ar wahanol opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfryngu i gynghorau cymuned i helpu i sicrhau bod yr Ombwdsmon dim ond yn cynnal ymchwiliad os yw'r protocol datrys yn lleol wedi cael ei ddefnyddio i'r pen.

Nododd un ymatebydd ei fod yn siomedig na chyfeiriwyd at waith a wnaed gan gynrychiolwyr yng nghymunedau cynnar yr adolygiad a'i bod yn ymddangos bod bwlio, bygwth ac aflonyddu mewn rhai cynghorau tref a chymuned wedi cael eu hanwybyddu. Roedd yn teimlo ei bod yn ymddangos bod peidio â cheisio mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy'r Fframwaith yn gyfle wedi'i golli i'r sector, a dywedodd

bod y problemau hyn nid yn unig yn cael effaith wirioneddol a pharhaus ar recriwtio a chadw swyddogion, ond hefyd ar nifer y cynghorwyr sy'n sefyll mewn etholiadau.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid ymgynghori â Syr Gary Hickingbottom, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ar gwestiynau 2 i 11, 16 a 21 sy'n ymwneud â phwerau a gweithdrefnau'r Panel, a hefyd ar sut mae argymhellion Penn yn rhyngweithio â'r cynllun ar gyfer "un system tribiwnlysoedd unedig i Gymru". Dywedodd yr ymatebydd fod y wybodaeth ychwanegol hon yn hanfodol er mwyn darparu ymateb digon gwybodus i'r ymgynghoriad.

Cwestiwn 22. *Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.*

O'r 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ymatebodd 2 i'r cwestiwn hwn.

Dywedodd un nad oedd yr ymgynghoriad wedi gwahaniaethu'n briodol rhwng graddfa wahanol cyrff na'r ystod o gynghorwyr sy'n eu rhedeg. Ychwanegodd nad oedd gwahaniaeth rhwng cyflogai cyngor dinas sydd ar gyflog uchel ac aelod gwirfoddol o gyngor cymuned bach, ond bod y goblygiadau a'r effeithiau arnynt yn sylweddol.

Dywedodd un ymatebydd fod yr ymgynghoriad yn rhy eiriog, y dylai fod wedi'i ysgrifennu mewn 'plain English' a bod yn llai ailadroddus.

Sylwadau a godwyd y tu allan i'r ymgynghoriad hwn

Gwnaed sylw perthnasol y mae'n werth ei nodi y tu allan i'r ymgynghoriad ffurfiol hwn, a oedd yn ymwneud â gweithdrefn y Panel ar gyfer apeliadau. Teimlwyd y dylai fod gofyniad penodol i roi gwybod i Swyddog Monitro perthnasol ar unwaith pan fydd y Panel yn derbyn apêl, oherwydd mae bodolaeth apêl yn elfen ganolog o gychwyn ataliad.